



Arolwg Omnibws yr Oedolion, 2019

Cymryd Rhan yn y Celfyddydau



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.



Clawr: Gwledd Gymunedol Canolfan Mileniwm Cymru (llun: Dan Green)


Cynnwys

Cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol a chrefftau	3
Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol	7
Cymryd rhan mewn dawns.....	11
Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol.....	15
Cymryd rhan mewn cerddoriaeth.....	19
Cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth.....	23
Cymryd rhan mewn drama.....	27
Atodiad 1 – Diffiniadau o safleoedd economaidd-gymdeithasol	31
Atodiad 2 Cwestiynau Arolwg 2019	32

Cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol a chreffftau

Yn ogystal â bod y gweithgarwch amlaf o ran cymryd rhan yn 2019, mae cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol a chreffftau wedi parhau i gynyddu, ac er 2014 mae'n cynyddu 10 pwynt canran o 18.8% i 28.2% yn 2019.

Cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol a chreffftau (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019


Cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol a chreffftau yn ôl rhywedd

Roedd gwahaniaeth o 16.3 pwynt canran mewn lefelau cymryd rhan rhwng dynion a menywod yn 2019 yn y celfyddydau gweledol a chreffftau, gyda lefelau uwch yn gyson ymhlith menywod dros y tair blynedd. Cymerodd 36.1% o fenywod ran o leiaf unwaith y flwyddyn o gymharu ag 19.8% o ddynion.

Cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol a chrefftau yn ôl dosbarth cymdeithasol

Dros y tair blynedd mae lefelau'r ddau grŵp wedi aros yn sefydlog gyda lefelau uwch o weithgarwch ymhlith y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch ym mhob un o'r tair blynedd. Cymerodd tua 30% o'r grŵp ABC1 ran bob blwyddyn 2017-2019 o gymharu â chwarter y rhai yn y grŵp C2DE.

Cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol a chrefftau yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol a chrefftau yn ôl oed

Yn 2019 cynyddodd cymryd rhan gydag oed pobl. Er bod chwarter y rhai yn y grŵp 16-24 a 25-34 oed wedi cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach, cynyddodd hyn i 29.8% ar gyfer y rhai 35-44 oed a 31.2% ar gyfer y rhai dros 65 oed. Yn ystod y ddwy flynedd flaenorol roedd rhagor o amrywiad rhwng grwpiau oed.

Cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol a chrefftau yn ôl oed (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol a chrefftau yn ôl rhanbarth

Roedd lefelau cymryd rhan yn 2019 yn weddol gyfartal ledled Cymru, gyda'r lefelau uchaf o weithgareddau yn y Gogledd, 29.5%, y De-ddwyrain 29.3%, a Chanolbarth y De, 29.2%. Digwyddodd chwarter y gweithgareddau yn y De-orllewin, 25.4%. Mae'n batrwm gwahanol i'r ddwy flynedd flaenorol pan oedd rhagor o wahaniaeth rhwng y rhanbarthau.

Cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol a chrefftau yn ôl rhanbarth (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


Cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol a chrefftau yn ôl y Gymraeg

Nid oedd llawer o wahaniaeth o ran cymryd rhan gan y rhai a oedd a'r rhai nad oeddynt yn siarad Cymraeg yn 2019, gyda 28.9% o siaradwyr Cymraeg yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn o gymharu â 28% o'r di-Gymraeg.

Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Gan ganolbwyntio ar y rhai a oedd yn siarad Cymraeg yn fanylach, roedd cyfran uwch o'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg ond nad oeddynt yn rhugl yn cymryd rhan, 33.2%, o gymharu â'r rhai a oedd yn rhugl yn y Gymraeg, 24.7% yn 2019, gwahaniaeth o 8.5 pwynt canran.

Cymryd rhan mewn celf a chrefft weledol yn ôl gallu'r Gymraeg (% yn cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu fwy)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol

Lefelau cymryd rhan yn y celfyddydau digidol oedd yr uchaf y maent wedi bod dros y cyfnod o ddeng mlynedd, yn 2019 gydag 13.1% yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn o gymharu ag 11.5% yn 2009.

Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol yn ôl rhywedd

Dros y tair blynedd roedd lefelau mynychu ychydig yn uwch ymhlith dynion na menywod, tra bod y bwlch rhwng y ddau wedi aros yn gymharol sefydlog. Yn 2019 cymerodd 14.8% o ddynion ran unwaith y flwyddyn neu'n amlach o gymharu ag 11.6% o fenywod, bwlch o 3.2 pwynt canran. Yn 2018 roedd y bwlch rhwng y ddau yn 3 phwynt canran ac yn 2017 roedd yn 4 pwynt canran.


Tabl 1: cymryd rhan yn y celfyddydau digidol yn ôl rhywedd (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

	2019	2018	2017
Gwrywaidd	14.8%	12.4%	12.6%
Benywaidd	11.6%	9.4%	8.6%

Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol yn ôl dosbarth cymdeithasol

Cymerodd lefelau uwch o'r rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1 uwch ran ym mhob un o'r tair blynedd gydag 16.1% yn gwneud hynny yn 2019 o'i gymharu â 9.9% o'r rhai yn y grŵp C2DE, y bwlch rhwng y ddau grŵp oedd 6.2 pwynt canran. Cynyddodd y bwlch rhwng y ddau grŵp o'r flwyddyn flaenorol pan oedd yn 1.3 pwynt canran.

Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol yn ôl oed

Roedd y gyfran uchaf o gymryd rhan yn 2019 ymhlith y rhai 25-34 oed lle roedd bron chwarter (24%) yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn, cynnydd o 16% yn y ddwy flynedd flaenorol. Roedd y lefelau isaf ymhlith y grwpiau hynaf o dros 65 oed gyda 3.6% yn cymryd rhan – y grŵp oed yna oedd â'r lefelau isaf ar draws y tair blynedd. Bu cynnydd bach o flwyddyn i flwyddyn o 2.3 pwynt canran ymhlith y grŵp 45-64 oed.


Tabl 2: cymryd rhan yn y celfyddydau digidol yn ôl oed (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

Oed	2019	2018	2017
16-24	19.7%	21.2%	21.9%
25-34	24.0%	16.2%	16.2%
35-44	17.5%	13.2%	14.7%
45-64	10.7%	8.4%	6.1%
dros 65	3.6%	4.2%	5.0%

Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol yn ôl rhanbarth

Roedd y lefelau uchaf o gymryd rhan yn y celfyddydau digidol yn y De-ddwyrain, 16.9%, er nad oedd y Gogledd ymhell ar ei hól hi, 15.8%. Roedd y lefelau isaf o gymryd rhan yn y De-orllewin, 7.3%.

Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol yn ôl rhanbarth (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol yn ôl y Gymraeg

Roedd gwahaniaeth bach yn lefelau cymryd rhan ymhlith y rhai a allai ac na allent siarad Cymraeg yn 2019, cymerodd 15.3% o siaradwyr Cymraeg ran o leiaf unwaith y flwyddyn o gymharu â 12.5% o'r rhai nad oeddynt yn siarad Cymraeg. Dyma'r gwrthwyneb i'r ddwy flynedd flaenorol lle'r oedd lefelau uwch o gymryd rhan ymhlith y di-Gymraeg.

Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

O'r rhai a siaradai Gymraeg, cymerodd ddwbl y gyfran nad oeddynt yn rhugl ran yn y celfyddydau digidol yn 2019, 20.1%, o gymharu â'r siaradwyr Cymraeg rhugl, 10.5%. Yn ystod y ddwy flynedd flaenorol nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y ddau grŵp.

Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan mewn dawns

Ar ôl uchafbwynt yn y lefelau yn 2018 o 9.2%, bu gostyngiad bach mewn lefelau cymryd rhan mewn dawns i 8.1% yn 2019.

Cymryd rhan mewn dawns (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

Cymryd rhan mewn dawns yn ôl rhywedd

Mae cymryd rhan dawns wedi bod yn uwch ymhlith menywod na dynion dros y tair blynedd, yn 2019 roedd 1 o bob 10 menyw yn cymryd rhan (10.6%). Ar ôl cynnydd bach mewn gweithgarwch ymhlith dynion rhwng 2017 a 2018 o 4.1% i 7.9%, bu gostyngiad yn 2019 i 5.5%.


Tabl 3: cymryd rhan mewn dawns yn ôl rhywedd (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

	2019	2018	2017
Gwrywaidd	5.5%	7.9%	4.1%
Benywaidd	10.6%	10.5%	11.3%

Cymryd rhan mewn dawns yn ôl oed

Y grŵp 35-44 oed oedd â'r lefelau uchaf o gymryd rhan mewn gweithgareddau dawns yn 2019, 12%. Mae'r grŵp yn cael cynnydd o flwyddyn i flwyddyn er 2017 pan oedd 5.9% o oedolion yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn. Bu gostyngiad ymhlith y grŵp ieuengaf 16-24 oed o 5.2 pwynt canran o 2018, o 14.8% i 9.2%. Er bod y rhai 25-34 oed wedi gostwng yn 2019, gyda 7.5% yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn, mae hyn yn dilyn cynnydd yn 2018, pan gymerodd 13.2% ran. Mae'r lefelau gweithgarwch isaf yn parhau i fod ymhlith y grŵp dros 65 oed, gyda 4.4% yn cymryd rhan yn 2019.

Cymryd rhan mewn dawns yn ôl oed (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan mewn dawns yn ôl rhanbarth

Roedd y lefelau uchaf o gymryd rhan mewn dawns yng Nghanolbarth y De, cymerodd 13% ran yno yn 2019, sy'n newid o'r ddwy flynedd flaenorol pan oedd y lefelau uchaf yn y De-ddwyrain. Roedd gan y Gogledd a'r De-orllewin lefelau cymryd rhan is na'r cyfartaledd yn 2019, 3.5% a 4.9%.

Cymryd rhan mewn dawns yn ôl rhanbarth (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


Cymryd rhan mewn dawns yn ôl y Gymraeg

Nid oes gwahaniaeth yn lefelau cymryd rhan mewn dawns yn ôl gallu yn y Gymraeg yn 2019, fel y digwyddodd ar gyfer 2018. Cymerodd 8% o oedolion yn y ddau grŵp ran yn ystod y flwyddyn.

Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Gan ganolbwyntio ar y rhai sydd â rhywfaint o allu yn y Gymraeg roedd lefelau ychydig yn uwch o gymryd rhan ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl o gymharu â siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl, 9.9% o gymharu â 6.8%

Cymryd rhan mewn dauws yn ôl y Gymraeg (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol

Mae lefelau cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol wedi cynyddu'n gyson er 2013 pan gymerodd 7.3% ran unwaith y flwyddyn neu'n amlach gan godi i 11.5% yn 2019. Dyma'r lefel uchaf o gymryd rhan dros y deng mlynedd.

Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn ôl rhywedd

Roedd cyfran ychydig yn uwch o fenywod, 12.4%, yn cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn 2019 na dynion, 10.5%. Nid yw lefel cymryd rhan dynion wedi newid ers y flwyddyn flaenorol.


Tabl 4: cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn ôl rhywedd (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

	2019	2018	2017
Gwrywaidd	10.5%	10.9%	7.7%
Benywaidd	12.4%	9.2%	10.1%

Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn ôl dosbarth cymdeithasol

Cymerodd ychydig dros ddwbl y rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch ran mewn ysgrifennu creadigol yn 2019, 15.3% o'r grŵp ABC1 o'i gymharu â 7.4% o'r grŵp C2DE, bwlch o 7.9 pwynt canran.

Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn ôl oed

Y grwpiau 16-24 a 35-44 oed oedd â'r lefel uchaf o gymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol, 15% o oedolion yn y ddau grŵp. Roedd y lefelau isaf ymhlith y grwpiau hŷn. Roedd gan y grwpiau oed 45-64 a dros 65 oed 9% o oedolion yn cymryd rhan o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn. Cynyddodd lefelau cymryd rhan ymhlith y rhai 25-34 oed 6.5 pwynt canran rhwng 2017 a 2018, 7.4% yn cynyddu i 13.9% ac mae'r cynnydd wedi'i gynnal hyd 2019 pan oedd y lefelau yn 13.8%.

Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn ôl oed yn 2019 (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Tabl 5: cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn ôl oed (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

	2019	2018	2017
16-24	15.4%	11.8%	18.0%
25-34	13.8%	13.9%	7.4%
35-44	15.1%	8.0%	12.7%
45-64	8.9%	9.2%	7.5%
65+	9.1%	8.9%	5.8%


Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn ôl rhanbarth

Y Gogledd a'r De-ddwyrain oedd â'r lefelau uchaf o gymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn 2019, gydag 13% o oedolion yn cymryd rhan yn y ddau. Mae hyn yn newid o'r flwyddyn flaenorol pan oedd y lefelau uchaf yng Nghanolbarth y De. Roedd y lefelau cymryd rhan isaf yn 2019 yn y De-orllewin, 7.6%. Mae hyn yn newid o'r ddwy flynedd flaenorol pan oedd y lefelau isaf yn y De-ddwyrain.

Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn ôl rhanbarth (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn ôl y Gymraeg

Roedd gan siaradwyr Cymraeg lefelau uwch o gymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn 2019 gyda 15% yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn o gymharu â 10.4% o'r di-Gymraeg. Yn y flwyddyn flaenorol nid oedd unrhyw wahaniaeth mewn lefelau cymryd rhan rhwng y ddau grŵp gydag 1 o bob 10 yn cymryd rhan p'un a oeddynt yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg.

Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Roedd gan y rhai a oedd yn rhugl yn y Gymraeg lefel uwch o gymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol, 16.1% na'r rhai nad oeddynt yn siarad Cymraeg, 13.8%. Yn ystod y ddwy flynedd flaenorol roedd lefelau cymryd rhan ychydig yn uwch hefyd ymhlith y siaradwyr Cymraeg rhugl.

Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan mewn cerddoriaeth

Lefelau cymryd rhan mewn cerddoriaeth oedd yr uchaf yr oeddynt wedi bod dros y deng mlynedd diwethaf yn 2019, gyda 18.4% o oedolion yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hyn ddwywaith y gyfran a gymerodd ran yn 2010 pan wnaeth 9.1% hynny unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Cymryd rhan mewn cerddoriaeth (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

Cymryd rhan mewn cerddoriaeth yn ôl rhywedd


Cymerodd rhagor o ddynion, na menywod ran mewn cerddoriaeth yn 2019, gydag un rhan o bump, 20.5%, yn ei wneud unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn 2019 a 2018. Mae hyn yn cymharu ag 16.3% o fenywod yn 2019 ac 14.2% yn 2018. Yn 2017 doedd dim gwahaniaeth mewn lefelau cymryd rhan rhwng dynion a menywod gydag 14% yn gwneud hynny yn y ddwy flynedd.

Tabl 6: cymryd rhan mewn cerddoriaeth yn ôl rhywedd (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

	2019	2018	2017
Gwrywaidd	20.5%	20.1%	14.4%
Benywaidd	16.3%	14.2%	14.4%

Cymryd rhan mewn cerddoriaeth yn ôl dosbarth cymdeithasol

Roedd lefelau uwch o gymryd rhan ymhlith y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch ar draws y tair blynedd, er i'r bwlch rhwng y ddau leihau rhwng 2018 a 2019. Yn 2019 cymerodd 20.9% o'r rhai yn y grŵp ABC1 ran o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n amlach sy'n cymharu â 15.6% o'r grŵp C2DE, bwlch o 5.3 pwynt canran. Mae hyn yn cymharu â bwlch o 10.8 pwynt canran yn y flwyddyn flaenorol. Cymryd rhan mewn cerddoriaeth yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


Cymryd rhan mewn cerddoriaeth yn ôl oed

Cymryd rhan mewn cerddoriaeth yn ôl oed (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

Roedd chwarter, 24.7%, o weithgarwch ymhlith y grŵp ieuengaf 16-24 oed yn 2019. Gostyngodd lefelau cymryd rhan y bobl hŷn gyda 15.3% o'r rhai dros 65 oed yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)


Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019



Cymryd rhan mewn cerddoriaeth yn ôl rhanbarth

Y De-ddwyrain oedd â'r lefel uchaf o weithgarwch yn 2019 fel yr oedd yn 2018, gyda 22.4% yn cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Roedd y lefelau isaf o gymryd rhan yn y Gogledd ym mhob un o'r tair blynedd gydag 13.9% yn cymryd rhan yn 2019.

Cymryd rhan mewn cerddoriaeth yn ôl rhanbarth (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


Cymryd rhan mewn cerddoriaeth yn ôl y Gymraeg

Roedd cyfran ychydig yn uwch o'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg yn cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach o gymharu â'r di-Gymraeg, 21.9% o gymharu ag 17.3%. Mae'r bwlch rhwng y ddau wedi gostwng i 4.6 pwynt canran o'i gymharu â 2017 pan oedd yn 11.3 pwynt canran.

Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Roedd gwahaniaeth bach yn lefelau cymryd rhan ymhlith y rhai a oedd yn rhugl yn y Gymraeg o gymharu â'r rhai nad oeddynt yn rhugl. Cymerodd 23.7% o'r rhai a oedd yn rhugl ran o leiaf unwaith y flwyddyn yn 2019 o gymharu ag 20% o siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl. Mae hyn yn newid o 2018 pan oedd cyfrannau ychydig yn uwch o'r rhai nad oeddynt yn rhugl yn cymryd rhan na'r rhai a oedd yn rhugl, 18.6% o gymharu ag 16.6%

Cymryd rhan mewn cerddoriaeth yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth

Dyblodd lefelau cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth dros gyfnod o ddeng mlynedd o 7.4% yn 2009 i 14.2% yn 2019, cynnydd o 7.8 pwynt canran.

Cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

Cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth yn ôl rhywedd


Cymerodd rhagor o ddynion, 17.3%, ran mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth na menywod, 11.4%. Dyma'r un duedd â'r ddwy flynedd flaenorol.

Tabl 7: cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth yn ôl rhywedd (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

	2019	2018	2017
Gwrywaidd	17.3%	11.8%	15.5%
Benywaidd	11.4%	9.4%	9.7%

Cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth yn ôl dosbarth cymdeithasol

Cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Roedd lefelau uwch o gymryd rhan ymhlith grwpiau ABC1 yn 2019, 16.6% o gymharu ag 11.7% o'r grwpiau C2DE, gwahaniaeth o bron 5 pwynt canran, mae hyn yn cymharu â gwahaniaeth o ryw 3.5 pwynt canran yn 2018 a 2017.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)
Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth yn ôl oed

Cymerodd bron chwarter, 23.4% o'r grŵp ieuengaf ran yn 2019, gyda'r symiau isaf yn y grwpiau hynaf dros 65 oed, 9.7%. Yn y flwyddyn flaenorol, gostyngodd y lefel isaf o weithgarwch ymhlith y grŵp 35-44 oed, 6.9%.

Cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth yn ôl oed (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth yn ôl rhanbarth

Roedd y lefelau uchaf o gymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth yn 2019 i'w gweld yn y De-ddwyrain, gydag 17% o oedolion yn cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach, ac yna dilynwyd hyn yn agos gan 15.1% yng Nghanolbarth y De. Roedd y lefelau isaf o weithgarwch yn y Gogledd lle cymerodd 12.3% ran, a lle mae'r lefelau isaf wedi digwydd dros y tair blynedd.

Cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth yn ôl rhanbarth (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


Cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth yn ôl y Gymraeg

Roedd gwahaniaeth bach mewn lefelau cymryd rhan, gyda chyfran ychydig yn uwch o'r di-Gymraeg yn cymryd rhan o gymharu â'r di-Gymraeg, 14.7% o gymharu â 12.7%, yn 2019. Nid oedd llawer o wahaniaeth yn y lefelau cymryd rhan rhwng y ddau grŵp yn ystod y ddwy flynedd flaenorol.

Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Er nad oedd llawer o wahaniaeth rhwng y rhai a oedd ac nad oeddynt yn siarad Cymraeg o ran cymryd rhan mae rhagor o wahaniaeth rhwng y rhai oedd yn rhugl yn y Gymraeg a'r rhai nad oeddynt. O'r rhai nad oeddynt, yn 2019 cymerodd 17.6% ran o leiaf unwaith y flwyddyn o gymharu â 7.8% o'r rhai nad oeddynt yn rhugl. Roedd tuedd debyg yn ystod y ddwy flynedd flaenorol.

Cymryd rhan mewn ffilm, fideo neu ffotograffiaeth yn ôl y Gymraeg (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan mewn drama

Yn 2019, cymerodd 4.7% o oedolion ran mewn drama o leiaf unwaith y flwyddyn, nid yw'r lefel o weithgarwch hon yn newid llawer er 2012.

Cymryd rhan mewn drama (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Graff llinell sy'n dangos canran yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn drama unwaith y flwyddyn neu'n amlach, 2009-2019

Cymryd rhan mewn drama yn ôl rhywedd


Nid oedd llawer o wahaniaeth mewn lefelau cymryd rhan yn ôl rhywedd ar draws y tair blynedd gyda lefelau ychydig yn uwch o weithgarwch ymhlith menywod na dynion. Cymerodd 5.2% o fenywod ran yn 2019 o gymharu â 4.2% o ddynion.

Tabl 8: cymryd rhan mewn drama yn ôl rhywedd (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

	2019	2018	2017
Gwrywaidd	4.2%	3.6%	3.0%
Benywaidd	5.2%	4.0%	5.0%

Cymryd rhan mewn drama yn ôl dosbarth cymdeithasol

Cymryd rhan mewn drama yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Dros y tair blynedd roedd lefelau cymryd rhan ychydig yn uwch ymhlith y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch gyda 5% o'r rheini yn y grŵp ABC1 yn cymryd rhan o gymharu â 4.4% o'r rheini yn y grwpiau C2DE. Mae hyn yn dilyn yr un duedd â'r ddwy flynedd flaenorol.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)
Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan mewn drama yn ôl oed

Cymryd rhan mewn drama yn ôl oed (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Cymerodd un o bob deg o'r rhai 16-24 oed ran yn 2019, 10.7%, dyma'r grŵp oed â'r lefel uchaf o weithgarwch. Roedd y lefelau isaf ymhlith y grwpiau hynaf o dros 65 oed, 2.2%, ac yna'r rhai 25-34 oed, 3.7%. Yn y flwyddyn flaenorol, y grŵp oed yma oedd â'r lefelau uchaf o gymryd rhan gyda 7%.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)
Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Cymryd rhan mewn drama yn ôl rhanbarth

Y De-ddwyrain oedd â'r lefel uchaf o gymryd rhan yn 2019, 6.1%, ac yna, Canolbarth y De, 5.8% ac yna, y De-orllewin, 5.3%. Roedd y lefelau isaf yn y Gogledd gydag 1.3% o oedolion yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn. Y Gogledd oedd â'r lefelau isaf o weithgarwch dros y tair blynedd.

Cymryd rhan mewn drama yn ôl rhanbarth (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


Cymryd rhan mewn drama yn ôl y Gymraeg

Nid oedd llawer o wahaniaeth mewn lefelau cymryd rhan rhwng y rhai a all a'r rhai na allent siarad Cymraeg yn 2019, gyda 5.6% o siaradwyr Cymraeg yn cymryd rhan mewn drama o gymharu â 4.4% o'r di-Gymraeg.

Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Mae'r dadansoddiad manylach o'r data Cymraeg yn dangos bod lefelau gweithgarwch uwch mewn drama ymhlith y siaradwyr Cymraeg rhugl na'r siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl, 7% o gymharu â 4.2% yn 2019.

Cymryd rhan mewn drama yn ôl y Gymraeg (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Atodiad 1 – Diffiniadau o safleoedd economaidd-gymdeithasol

Gellir rhannu'r boblogaeth yn chwe grŵp economaidd-gymdeithasol neu safle cymdeithasol, seiliedig ar swydd prif enillydd cyflog y tŷ. Rhanna pawb arall yn y tŷ yr un safle â'r prif enillydd. I hwyluso dadansoddi, grwpir y tri grŵp cyntaf yn ABC1au ac C2DEau sef dosbarth canol a dosbarth gweithiol:

- A “Dosbarth canol uwch” - swydd rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch e.e. prif weithredwr, cyfarwyddwr cwmni, gwas sifil uwch, meddyg, barnwr, bargyfreithiwr, cyfrifydd gweithredol
- B “Dosbarth canol” - swydd rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch a chanolig e.e. athro ysgol uwchradd, llyfrgellydd, rhaglennwr cyfrifiaduron, swyddog prawf, gweithydd cymdeithasol
- C1 “Dosbarth canol is” - swydd arolygu, clerigol, isreoli e.e. gweithiwr swyddfa/clerigol, arolygydd ffatri, clercc banc, gwerthwr, myfyriwr

ABC1au –
proffesiynol,
cymwys a swyddi
lle na wneir
gwaith â llaw

- C2 “Dosbarth gweithiol medrus” - gweithiwr medrus â llaw e.e. Trydanwr, saer coed, ymladdwr tân, fforman
- D “Dosbarth gweithiol” - gweithiwr â llaw sy'n lled-fedrus a di-grefft e.e. gweithiwr mewn siop, gweithiwr ffatri, casglwr sbwriel, negesydd, staff bar
- E Y rhai sy'n llwyr ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth gan gynnwys y rhai di-waith hir dymor a phensiynwyr heb bensiynau preifat. Gweithwyr dros dro

C2DEau –
medrus, lledfedrus
a gweithwyr llaw
di-grefft a phobl na
weithiant

Atodiad 2 Cwestiynau Arolwg 2019

Dangoswch gerdyn A eto

Cwestiwn 2 Yn eich amser hamdden, pa mor aml ydych yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a ddarllenaf yn uchel?

Mae 'cymryd rhan' yn meddwl yn y tŷ, mewn dosbarthiadau, ymarferion, sioeau neu weithdai, ond nid yn rhan o'ch swydd neu'ch addysg amser llawn.

Darllenwch yn uchel

..... a) Cerdd o unrhyw fath gan gynnwys canu offeryn, canu, rhoi help llaw mewn côr, cymdeithas operatig, band pres, cerddorfa, grŵp gwerin/roc/jas.

Unwaith yr wythnos neu'n amlach

2/3 gwaith y mis

Unwaith y mis

Unwaith bob 2/3 mis

2/3 gwaith y flwyddyn

Unwaith y flwyddyn

Llai aml

Byth

Ni wn

Ailadroddwch am:

Drama neu theatr o unrhyw fath.

Dawns o unrhyw fath.

Gwneud ffilm a fideo, neu ffotograffiaeth ar wahân i luniau o'r teulu, gwyliau neu bartïon.

Celfyddydau gweledol a chrefftau, er enghraifft peintio, braslunio, graffeg gyfrifiadurol, crochenwaith, turnio, gwneud gemwaith, gwehyddu, tecstilau, gwau neu wnio.

Ysgrifennu creadigol, er enghraifft barddoniaeth neu straeon.

y celfyddydau digidol: creu a gwneud celf gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. lanlwytho, creu neu ailgymysgu cynnwys artistig (e.e. ar YouTube, Fflicr, ac ati.)